TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

VTCT Diploma mewn Gwallt a Cholur Cyfryngau Lefel 2

Yn gryno

Mae artistiaid colur yn dyfeisio ac yn rhoi colur i gyfleu ymdeimlad o ddrama, p'un a yw ar gyfer ffilm, theatr, ffotograffau neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol. Bydd cymhlethdod a'r math o gysyniad yn amrywio yn dibynnu ar y cynhyrchiad a'r cymeriad, ond gall artistiaid colur da gyfleu ystod eang o edrychiadau ar draws amrywiaeth o genres.

Wrth weithio fel artist colur, ceir amrywiaeth o lwybrau dilyniant. Mae natur lawrydd y proffesiwn yn golygu y gallwch symud rhwng bod yn gynorthwyydd colur dan hyfforddiant, artist colur, prif artist colur a rolau dylunio, yn dibynnu ar eich profiad.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddyheadau o fod yn artist colur

... Oes gennych ddiddordeb arbennig mewn theatr neu ffilm

... Ydych chi'n greadigol a gweithgar

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Fel artist colur, rydych chi'n gyfrifol am roi colur ar bobl a steilio gwallt ar gyfer pobl sy'n ymddangos mewn ffilmiau, rhaglenni teledu, sesiynau ffotograff neu ddigwyddiadau byw fel cyngherddau, dramâu neu sioeau ffasiwn. Mae trin gwallt yn chwarae rhan fawr yn y cwrs hwn ac mae'r diwydiant yn cyflogi unigolion amryddawn sy'n gallu rhoi colur ymlaen a steilio gwallt mewn un sesiwn.

Eich swydd fyddai creu'r edrychiad mae'r person ei angen ar gyfer y math o gynhyrchiad neu ddigwyddiad.

Byddwch yn dysgu technegau trin gwallt sylfaenol a sgiliau colur penodol i'r cyfryngau gan gynnwys:

Colur ar gyfer y llwyfan
Heneiddio ar gyfer y llwyfan
Effeithiau arbennig
Lleoliad gwaith
Gwneud wig
Trin gwallt sylfaenol
Defnyddio darnau gwallt
Colur ffasiwn
Colur ffotograffig
Colur cyfnod
Peintio wynebau
Dylunio celf corff
Darparu celf ewinedd

Byddwch yn cael eich asesu trwy aseiniadau ymarferol ac aseiniadau ar thema, portffolio o waith a chwestiynau prawf amlddewis. Ar ôl cwblhau, byddwch yn cyflawni:

Lefel 2 Trin Gwallt a Cholur y Cyfryngau
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg (os nad ydych wedi ennill gradd C neu uwch ar lefel TGAU)
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

I gael mynediad i'r cwrs, bydd angen i chi feddu ar o leiaf 3 chymhwyster TGAU, gradd D neu uwch, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 perthnasol A meddu ar ddawn greadigol neu dystiolaeth o waith celf.

Rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr nad ydynt yn meddu ar isafswm y cymwysterau TGAU yn seiliedig ar brofiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Diploma Lefel 3 mewn Colur Theatrig ar Cyfryngau, cyflogaeth neu addysg bellach.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae cod gwisg ac ymddangosiad yn agwedd bwysig iawn ar y cwrs hwn ac rydym yn gofyn i chi gadw at y canlynol:

Mae'n rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus ac esgidiau du synhwyrol yn y salonau
Rhaid i wallt gael ei glymu yn daclus yn ôl o'r wyneb a rhaid gwisgo colur er mwyn creu delwedd broffesiynol
Dim tyllau corff gweladwy
Modrwy briodas yn unig a ganiateir ei gwisgo yn yr ystafell colur.

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy, cost i'w gadarnhau.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.